**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd nos Lun, Ionawr 13eg, 2024 am 7:30 y.h. yn Neuadd Y Rhiw.**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Mari Evans, Wil Evans, Gwenllian Haf, Dafydd Myrddin, Emlyn Jones, Jaci Jones, Nesta Roberts, Gareth Williams, Wenda Williams. Y clerc Phil Hughes.

**1) Ymddiheuriadau a Datgan Diddordeb:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dewi Evans, Tim Rosa, Dafydd Williams, Robert Williams.

**2) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd:** Nid oedd cyhoeddiadau.

**3) Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun, Rhagfyr 9fed, 2024:**

Nodwyd fod un cais cynllunio wedi ei fethu ac y dylid ychwanegu'r canlynol:

**C23/0221/30/LL - Solfach, Uwchmynydd, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8DA** – Cais ar gyfer darparu storfa slyri tanddaearol - **Dim sylwadau.**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**4) Materion yn codi o'r cofnodion:**

i. **Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**

   **Llifogydd ar gornel Ty'n Cae wrth Bont Rhyd y Cei, Aberdaron –** Cafwyd ateb gan Gyngor Gwynedd eu bod am ychwanegu'r gwaith i'w rhestr a chaiff sylw pan fydd adnoddau ar gael.

ii. **Materion yr Eglwys Newydd** - Fe drwsiwyd y difrod yn dilyn Storm Darragh yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Rydym dal i ddisgwyl am adroddiad newydd Matt Osmont o gwmni Donald Insall er mwyn cael ei roi i'r cwmni yswiriant. Derbyniwyd eglurhad Gallaghers i'r cwestiynau a'r sylwadau ddechrau Rhagfyr. Disgwylir eu hymateb.

iii. **Y Fynwent** – Mae wal ar y terfyn rhwng y fynwent a 'Coach House' angen ei drwsio, a phenderfynwyd gyrru llythyr i berchennog y tŷ yn gofyn a fyddent yn fodlon cyfrannu at y gwaith. Yn dilyn storm ddiweddar mae ambell lechen wedi disgyn a thorri o amgylch y fynwent, penderfynwyd gofyn i'r Cyng Dewi Evans gysylltu efo Gallaghers i ofyn a yw'n bosib iddyn nhw eu tacluso.
   Cynhaliwyd archwiliad blynyddol y fynwent gan y Cyng Wil Evans, a nodwyd fod ychydig o'r beddi yn rhydd ond ddim yn peri gofid ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd bod ambell lechen wedi syrthio oddi ar y to ond ar y cyfan roedd y fynwent yn daclus iawn.

iv. **Y Cae Chwarae** - Eglurodd y Cyng Gwenllian Haf fod y pris rydym wedi ei dderbyn am siglen newydd i'r cae chwarae yn un efo 2 bostyn i'r ddaear yn hytrach na 4 fel sydd ar yr

un presennol, ac felly mi fydd angen llenwi'r tyllau diangen. Roedd y Cyng Emlyn Jones am holi a fyddai'n bosib cael yr adnoddau i wneud hyn. Yn ychwanegol roedd y Cyng Gwenllian Haf am ofyn am bris am ail siglen.

**5) Gohebiaethau:**

- **Ymgynghoriad comisiwn Cyfreithiol ar ddiwygio cyfraith claddu ac amlosgi** – er gwybodaeth.
- **Arolwg o etholaethau'r Senedd –** er gwybodaeth.
- **Rhybudd - Cau'r ffordd o'r gyffordd i'r dwyrain o Feillionydd Bach i'r de ddwyrain o Gapel Pisgah, Rhiw** – er gwybodaeth.
- **Rhybudd - Caead Argyfwng - Ffordd o Uwchmynydd i'r gyffordd ger Bodermyd Isaf, Uwchmynydd** – er gwybodaeth.
- **Rhybudd - Caead Argyfwng - Ffordd o fferm ger Pont Methlem i'r gogledd i Dŷ Hen, Rhydlios –** er gwybodaeth.
- **Rhybudd - Caead Argyfwng o Ffordd B4413 yn Rhoshirwaun –** er gwybodaeth.
- **Rhybudd - Cau'r ffordd i'r dwyrain o groesffordd Meillionydd Bach i Graig Ewig, Bryncroes –** er gwybodaeth.

**6) Cynllunio**

**C24/1091/30/CR - Plas yn Rhiw, Rhiw, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8AB -** Gwaith cryfhau'r grisiau a lloriau - **Dim gwrthwynebiad na sylwadau.**

**7) Ariannol**

Trafodwyd Praesept 2025/26 ac yn sgil cynnydd prisiau yn gyffredinol fe gytunwyd i godiad o £1000 am y flwyddyn.

*Derbyniadau*

Dim derbyniadau.

*Taliadau*

| | |
|---|---|
| Ffioedd banc HSBC | £5.40 |
| Three (CCTV) | £13.10 |
| Phil Hughes (Cyflog) | £260 |
| HMRC (PAYE) | £65 |
| Costau cyfarfodydd Neuadd Rhos | £100 |
| Cradyr.com (Gwefan) | £51 |
| Eon (Trydan Eglwys) | £28.98 |
| Cost cyfarfod neuadd Rhiw | £20 |

**8) Materion ffyrdd a llwybrau**

1) Mae’r ffordd o Tocia at Barc y Brenin, Rhoshirwaun wedi cambro ac angen sylw. Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd.

2) Wrth ochr llwybr Mynydd Anelog ger Tŷ Tan y Fron mae rhaff wedi ei roi yna i fynd i fyny at y mynydd ond mae’n beryglus ac angen ei symud. Penderfynwyd cysylltu ag uned llwybrau Cyngor Gwynedd.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Lun, Chwefror 10fed yng Nghanolfan Deunant, Aberdaron.**